JONES, JOHN ('Idris Fychan'; 1825 - 1887), crydd a thelynor

Enw: John Jones
Ffugenw: Idris Fychan
Dyddiad geni: 1825
Dyddiad marw: 1887
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: crydd a thelynor
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd yn Nolgellau. Hanoedd o deulu Ellis Roberts ('Eos Meirion'), telynor tywysog Cymru. Yr oedd ei fam yn gantores dda gyda'r tannau. Crydd ydoedd wrth ei alwedigaeth. Yn 1851 aeth i fyw i Lundain, ac oddi yno i Fanceinion yn 1857. Ystyrid ef y canwr gyda'r tannau gorau yn ei gyfnod, ac yn fardd a llenor da. Yn eisteddfod Rhuddlan, 1850, enillodd wobr am draethawd ar 'Canu gyda'r Delyn,' ac yn eisteddfod Caerlleon, 1866, dyfarnwyd y wobr iddo am draethawd ar 'Hanes a Henafiaeth Canu gyda'r Delyn,' a geir yn *Nhrafodion Cymdeithas y Cymmrodorion*, 1885. Cafodd mewn ystorfa ail-law ym Manceinion yn 1879 delyn 'Bardd y Brenin' ymhen hanner can mlynedd wedi iddo farw, ac arni blât pres, a'r geiriau 'Edward Jones Henblas Llandderfel 1765' (yn Ll.G.C. yn awr). Bu farw 3 Tachwedd 1887, a chladdwyd ef ym mynwent Ardwick.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Nicholas Bennett, *Alawon fy Ngwlad* (1896)

R. Griffith, *Llyfr Cerdd Dannau* (1913)

J. Lloyd Williams, *Y tri thelynor arloeswyr cerddorol Cymru yn y ddeunawfed ganrif* (1945)

Darllen Pellach

Ionawryn Williams, *Geiriadur Bywgraffiadol, yn cynnwys Byr-hanes y Cymry mwyaf adnabyddus fuont yn preswylio yn Manceinion* (1896)

Erthygl Wicipedia: John Jones

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 316032726

Wikidata: Q20256068

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu